**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru Wedi'i Gadarnhau**
**Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**
**29 Ionawr 2024 am 10:00, yn 3.3 CQ2 a Microsoft Teams**

Wedi'i Gadarnhau

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| Nick Elliott | (NE) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (gadawodd am 12:37) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Anne Beegan | (AB) | Archwilio Cymru |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Julie Bishop | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 3.1.1) |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Andrea Calise | (AC) | Prif Archwilydd Contract, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Huw George | (HG) | Prif Weithredwr Dros Dro |
| Dafydd James | (DJ) | Pennaeth Profiad a Gwasanaethau Digidol (ar gyfer eitem 5) |
| Gareth Lavington | (GL) | Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol (ar gyfer eitem 6) |
| Neil Lewis | (NL) | Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (ymunodd am 10:38, gadawodd am 11:10) |
| Alun Lloyd | (AL) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Jim McManus | (JMc) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant (ar gyfer eitem 3.1.1) |
| Jane Matthews | (JM) | Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Angela Williams | (AW) | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid Dros Dro |

Cyfarfod yn dechrau am 10:03

**ACGC 1/2024.01.29 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Mawrth 2024.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

| **ACGC 2/2024.01.29** | **Datganiadau o Fuddiannau** |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

| **ACGC 3/2024.01.29** | **Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol** |
|---|---|
| **ACGC 3.1/ 2024.01.29** | **Traciwr Argymhellion Archwilio** |

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** y traciwr argymhellion Archwilio ac adroddiad.

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran cynnydd a gweithrediad y camau rheoli sy'n codi o argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol. Adolygwyd y Gofrestr Tracio Archwilio yn chwarterol gan y Tîm Arwain a oedd yn gyfrifol am gau camau gweithredu, cymeradwyo estyniadau a sicrhau cynnydd o ran gweithredu. Mae'r Traciwr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn pob chwarter ar gyfer Sicrwydd.

Ystyriodd y Pwyllgor nifer y camau gweithredu nas cwblhawyd erbyn y dyddiad cau cychwynnol. Dywedodd LB fod hyn wedi'i adolygu gan y Tîm Arwain; roedd rhai argymhellion wedi'u heffeithio gan fod cwmpas a graddfa'r argymhelliad yn fwy nag a gynlluniwyd yn wreiddiol neu oherwydd bod angen gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol. Golyga hyn bod angen amser ychwanegol i'w gwblhau'n effeithiol.

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor fod Uned Busnes y Bwrdd ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o sicrhau cysondeb ar ôl cytuno ar y camau rheoli, er mwyn sicrhau bod cwmpas y camau gweithredu gofynnol yn fesuradwy, yn realistig ac yn gyraeddadwy. Dylai hyn wedyn effeithio ar brydlondeb gweithredu'r camau gweithredu ar ôl iddyn nhw gael eu cynnwys ar y Traciwr Archwilio.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod gwaith y Tîm Arwain a oedd yn ymgymryd â'r Archwiliad Dwfn; roedd y diweddariad yn rhoi syniad clir o'r cynnydd o ran rhoi'r camau gweithredu ar waith. Adleisiodd y Pwyllgor yr angen i wella cysondeb â'r argymhellion er mwyn sicrhau eu bod yn realistig ac yn gyraeddadwy.

**Sicrhaodd** y Pwyllgor fod camau gweithredu'r Traciwr Archwilio yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y Tîm Arwain.

| **ACGC 3.1.1/ 2024.01.29** | **Diweddariad: Gwella Iechyd (Iechyd y Boblogaeth) Sicrwydd Cyfyngedig** |
|---|---|

Rhoddodd JMc a JB ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran gweithredu'r ymatebion rheoli ar gyfer Archwiliad Mewnol Gwella Iechyd (Iechyd y Boblogaeth), a oedd wedi bod yn adroddiad sicrwydd cyfyngedig.

Fel rhan o'r archwiliad dwfn a gynhaliwyd gan y Tîm Arwain, cynhwyswyd y diweddariad ysgrifenedig o fis Rhagfyr yn yr Atodiad i'r adroddiad. Roedd y diweddariad llafar hwn i

Wedi'i Gadarnhau

Wedi'i Gadarnhau

ategu'r adroddiad hwn a'r wybodaeth ddiweddaraf am waith a wnaed ers diweddariad ysgrifenedig mis Rhagfyr.

Cadarnhaodd JMc fod gwaith wedi dilyn y trywydd iawn ynghylch gweithredu'r argymhellion; roedd y newidiadau wedi'u gweithredu, eu hadolygu a'u harchwilio. Roedd hyn wedi amlygu gwaith pellach yr oedd angen ei wneud i sicrhau bod yr holl brosesau a dogfennaeth yn cyd-fynd â'r broses ddiwygiedig. Ac felly, roedd y Tîm Arwain wedi cymeradwyo estyniad i'r dyddiad gweithredu hyd at ddiwedd mis Chwefror er mwyn caniatáu i'r gwaith pellach hwn gael ei gwblhau.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Gyfarwyddiaeth yn teimlo bod y newidiadau a wnaed yn dilyn yr adroddiad Archwilio wedi gwneud gwahaniaeth yn y broses o ddyrannu grantiau. Dywedodd JB wrth y Pwyllgor fod datblygu'r prosesau newydd yn sicrhau bod pob parti yn deall y broses grantiau'n llawn gan ei fod yn amlygu'r dibenion y tu ôl i'r broses.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y byddai canlyniadau adrodd yn cael eu dangos yn effeithiol o fewn systemau perfformiad y Sefydliad. Dywedodd JB wrth y Pwyllgor fod gwaith ar y gweill i ddatblygu dangosfyrddau priodol a'u cyhoeddi ar dudalennau gwefan y Gyfarwyddiaeth. Roedd JMc yn cydnabod bod adroddiadau'n cael eu datblygu a gofynnodd am sylwadau ac awgrymiadau i wella'r agwedd hon o'u gwaith.

Dywedodd JMc wrth y Pwyllgor fod cylch blynyddol ar gyfer grantiau, ac y byddai manteision y broses wedi ei gwella i'w gweld o'r cylch nesaf o ymgeisio a dyfarnu grantiau, a byddai hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

Sicrhaodd JB fod prosesau'r Pwyllgor wedi gwella a bod y timau sy'n gweithredu'r grantiau yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod data allbwn yn weladwy. Wrth symud ymlaen gyda'r prosesau newydd sydd ar waith, fe fyddai'r gwelliannau'n weladwy i'r Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor yn **fodlon** bod y camau Traciwr Archwilio Iechyd a Llesiant yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y Tîm Arwain.

| **ACGC 3.2/ 2024.01.29** | **Archwilio Mewnol** |
|---|---|

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod gwaith wedi ei ddatblygu'n dda ers y cyfarfod diwethaf ym mis Medi, yn ogystal â'r ddau adroddiad ar yr agenda heddiw, a bod tri adroddiad ar y gweill. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at ymateb y rheolwyr ar ddiwedd yr adroddiad a oedd yn gofyn am ohiriad tan 2024/25. Roedd hyn oherwydd bod yr Is-adran Microbioleg yn mynd drwy'r broses achredu ac yn ymateb i bwysau'r gaeaf.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch cyhoeddi'r adroddiad Seilwaith TG, gan nodi eu bod wedi mynegi pryder ynghylch gohirio'r gwaith hwn yng nghyfarfod mis Medi, a'r pwysau posibl o ran nifer yr adroddiadau sy'n cael eu cwblhau yn y chwarter diwethaf. Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod gwaith ar yr adroddiad hwn wedi dechrau a'i fod yn obeithiol y byddai'r adroddiad gorffenedig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth.

Gofynnodd y Pwyllgor am waith Archwilio Mewnol ar Femoranda o Gyd-ddealltwriaeth ynghylch y berthynas â chyrff lletya. Eglurodd PD, er bod y gwaith wedi'i gynllunio'n wreiddiol ar gyfer 2023/24, roedd wedi'i ohirio tan 2024/25. Y llwybr adrodd ar gyfer adroddiad fyddai trwy Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y Corff Lletya.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sut y byddai elfennau perfformiad Archwilio Mewnol y cyrff a gynhelir yn cael eu monitro.

Esboniodd PV fod cytundeb y Corff a Gynhelir yn sicrhau bod Gweithrediaeth y GIG yn gweithredu'n annibynnol ar holl feini prawf llywodraethu'r Corff Lletya, tra'n cadw atynt. Roedd y sicrwydd a ddarparwyd yn cadarnhau eu bod yn cadw at ofynion y gyfraith gyffredin drwy beidio â rhoi'r Corff Lletya mewn perygl drwy dorri unrhyw reolau a deddfwriaeth. Roedd y sicrwydd a ddarparwyd gan Gorff a Letyir i'r Sefydliad Lletya yn sylfaenol wahanol i'r sicrwydd yr oedd ei angen ar y Pwyllgor hwn gan ei staff yn fewnol. Y cynnig oedd yn cael ei ystyried o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd (2024-25) oedd cael Rhan A Cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol sy'n ymwneud â holl waith Iechyd Cyhoeddus Cymru a Rhan B o'r Pwyllgor ar gyfer gwaith y Cyrff a Letyir. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i'r Pwyllgorau eraill pe bai sicrwydd perthnasol i'w adrodd gan y Sefydliad a Letyir.

Trafododd y Pwyllgor y mecanweithiau sicrwydd ar gyfer y Sefydliadau a Letyir. Dywedodd PD y byddai sicrwydd yn cael ei geisio trwy Bwyllgor Archwilio'r corff a letyir. Dywedodd ymhellach, lle'r oedd corff a letyir hefyd yn defnyddio Gwasanaethau a Rennir, bod proses yn bodoli lle'r oedd Archwilwyr Arweiniol yn rhannu pryderon, a byddai'n cael gwybod am y pryderon hynny i'w cyflwyno i'r Pwyllgor hwn.

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio.

**Rhoddodd** y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad Parhad Busnes a Gwydnwch Technegol (sicrwydd rhesymol).

Amlygodd PD Amcan 3 i'r Pwyllgor, a oedd ag argymhelliad blaenoriaeth uchel. Roedd y rheolwyr wedi ymateb ac wedi cynllunio offer atal tân i'w gosod yn yr ardaloedd hynny.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch y defnydd o ddyddiadau chwarter mewn adroddiadau; gan nad oedd y rhain yn benodol, roedd yn well defnyddio dyddiadau diffiniedig.

Gofynnodd y Pwyllgor bod y camau ynghylch gorfodi Hyfforddiant Cynllunio Parhad Busnes yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol i weithredu arnyn nhw.
**Cam Gweithredu: PV/MM**

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Parhad Busnes.

**Rhoddodd** y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad Cyllid - Defnyddio Cardiau Caffael (sicrwydd rhesymol).

Wedi'i Gadarnhau

Tynnodd AC sylw at Fater yn Codi 4, a oedd yn ymwneud â chodi terfyn credyd dros dro a chymeradwyo'r cynnydd yn derfynol. Nododd y Pwyllgor fod hwn wedi'i gau, yn ogystal â llawer o'r camau eraill yn ymwneud â datblygu gweithdrefnau. Dywedodd AW ei bod wedi siarad gyda'r Archwilwyr ynghylch a ddylai'r adroddiad fod yn sicrwydd sylweddol, o ystyried lefel y camau gweithredu. Eglurodd AC fod y sgôr a roddwyd yn rhesymol ond ei fod yn agos iawn at fod yn sylweddol, ac fe'i graddiwyd yn rhesymol oherwydd nifer o fân faterion a godwyd yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r term 'mân anghywirdebau' a ddefnyddiwyd sawl tro yn yr adroddiad mewn perthynas â therfynau credyd a oedd yn fwy na'r swm awdurdodedig. Nododd AC fod y rhain yn cyfeirio at hepgor llofnod neu ddiffyg dogfennaeth.

Awgrymodd PD y byddai adolygiad o'r adroddiad yn cael ei gynnal ac y byddai'n cael ei ddosbarthu pe bai angen. Cytunodd NE i'r awgrym.
**Cam Gweithredu: PD/AC**

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cyllid – Defnyddio Cardiau Caffael.

Diolchodd NE i PD ac AC.

| | |
|---|---|
| **ACGC 3.3/ 2024.01.29** | **Archwilio Allanol** |

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** Diweddariad Archwilio Cymru.

Dywedodd AB wrth y Pwyllgor y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn ysgrifennu at y Sefydliad i nodi'r amserlenni ar gyfer ymateb Archwilio Cymru i Adroddiad Blynyddol y Sefydliad. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at ddau adroddiad parhaus:

- Adolygu Amcanion Llesiant, a
- Strategaeth Adnewyddu, a fydd yn cael ei hystyried fel eitem ar wahân ac na chaiff ei hystyried dan yr Asesiad Strwythuredig fel y cynlluniwyd yn wreiddiol.

Rhoddodd AB wybod i'r Pwyllgor y byddai'r Archwiliad Dwfn Digidol bellach yn cael ei gynnal yn rhaglen waith 2024/25 a bod Archwilio Cymru yn bwriadu dod â'r Adroddiad ar Effeithlonrwydd Ariannol i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth.

Nododd y Pwyllgor fod deialog ag Archwilio Cymru wedi nodi bod amserlen o 30 Mehefin wedi'i hawgrymu a oedd yn wahanol i'r dyddiad diweddarach yr oedd AB eisoes wedi'i grybwyll.

Cwestiynodd y Pwyllgor yr oedi gyda'r Archwiliad Dwfn i Wasanaethau Digidol o blaid Archwiliad Dwfn Cymru Gyfan o ran cyflawni gwelliannau yn ymwneud gyda chostau, arbedion effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol. Roedd y Pwyllgor wedi mynegi ei bryder yn y cyfarfod diwethaf y gallai'r oedi effeithio'n ariannol ar drawsnewid o fewn y Sefydliad a oedd yn dibynnu ar welliannau i'r rhwydwaith digidol. Yr oedd hefyd wedi gofyn i AB roi adborth am bryderon y Pwyllgor i reolwyr Archwilio Cymru.

Cadarnhaodd AB fod pryderon y Sefydliad wedi eu nodi gan Archwilio Cymru; o ystyried sefyllfa ariannol genedlaethol y GIG yng Nghymru, roedd y gwaith Ariannol wedi'i flaenoriaethu. Byddai'r Archwiliad Dwfn Digidol yn cael ei gynnal ac yn cael ei adrodd fel

Wedi'i Gadarnhau

rhan o gynllun gwaith 2024/25. Nododd byddai'r oedi cyn dechrau'r gwaith yn ychydig fisoedd o gymharu â'r cynllun gwreiddiol.

Gofynnodd y Pwyllgor i Archwilio Cymru, wrth ddatblygu cynlluniau gwaith, i sicrhau bod cyfarfodydd arfaethedig ar draws y Sefydliad yn cynnwys yr holl staff perthnasol i sicrhau lefelau uchel o effeithlonrwydd ariannol a gweithlu a chynllun gwaith cwbl gydgysylltiedig. Nododd AB y cais hwn a sicrhaodd y Pwyllgor fod Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r cysylltiadau a oedd yn bodoli ar draws y Sefydliad. Sicrhaodd y byddent yn cydymffurfio â'r cais hwn.

**Nododd** y Pwyllgor y Diweddaraf gan Archwilio Cymru.

**Rhoddodd** y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Archwilio Blynyddol.

Nododd y Pwyllgor ar adegau nad oedd yr Adroddiad Archwilio Blynyddol yn nodi'n glir a oedd yn cyfeirio at Iechyd Cyhoeddus Cymru neu'r GIG yng Nghymru. Cyfeiriwyd hefyd at drosiant staff a oedd yn cael ei weld gan y Sefydliad fel cam cadarnhaol gyda staff yn symud ymlaen oherwydd dyrchafiad. Dywedodd AB wrth y Pwyllgor fod paragraffau 36 i 38 yn cyfeirio at ddata Gweithlu Cenedlaethol Cymru Gyfan, a bod gweddill yr adroddiad yn cyfeirio at y Sefydliad ei hun.

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Blynyddol.

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** Adroddiad yr Asesiad Strwythuredig a oedd yn cyflwyno canfyddiadau gwaith asesiad strwythuredig 2023 yr Archwilydd Cyffredinol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r adroddiad yn dogfennu cyfnod o amser pan barhaodd holl gyrff y GIG i ymateb i ganlyniadau pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid eu gwasanaethau i ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig.
++
Roedd canfyddiadau allweddol yr adroddiad yn cynnwys:

- Y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, yn unol â Chyrff eraill y GIG, weithio gan ddefnyddio adran gyhoeddus ac yna adran breifat.
- Ystyried amserlennu cyfarfodydd y Pwyllgor i gefnogi adrodd amserol.
- Adolygu amlder adrodd Risg Corfforaethol i Bwyllgorau.
- Amlder goruchwylio'r Traciwr Archwilio.

Amlygodd PV ymatebion y rheolwyr ar ddiwedd yr adroddiad a oedd wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol Busnes.

- Roedd trafodaethau eisoes wedi nodi ailstrwythuro'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol gan ddechrau yn ei gyfarfod ym mis Mai 2024.

- Nodwyd yr argymhelliad yn ymwneud â threfnu cyfarfodydd; fodd bynnag roedd yr amserlen yn anodd ei symleiddio o ystyried nifer y cyfarfodydd, a'r argaeledd ac roedd y Bwrdd yn fodlon i raddau helaeth â'r trefniadau presennol.
- Adroddir ar Risg Corfforaethol i'r Pwyllgorau bob chwarter, a dwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Wedi'i Gadarnhau

- Byddai'r Traciwr Archwilio yn cael ei adolygu i gasglu'r argymhellion ar draws y Sefydliad lle byddai'n rhesymol gwneud hynny; nodwyd na chafodd y sefydliad lawer o adroddiadau gan sefydliadau eraill y byddai hyn yn berthnasol iddynt.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch dosbarthiad rhai camau gweithredu, nodwyd bod rhai wedi'u cwblhau gan y Sefydliad a nododd yr adroddiad eu bod ar y gweill. Awgrymodd AB fod hyn oherwydd yr amser pan oedd y gwaith maes wedi'i wneud a chytunodd i nodi'r gwahaniaethau a marcio'r adroddiad yn unol â hynny.
**Cam Gweithredu: AB**

**Nododd** y Pwyllgor Adroddiad yr Asesiad Strwythuredig.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i Adroddiad Cynllunio'r Gweithlu.

Crynhodd AB yr adroddiad, a oedd yn edrych ar sut y gallai'r sefydliad wella'r ymagwedd strategol at y gweithlu a gwella gwybodaeth am y gweithlu. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror i'w ystyried yng nghyd-destun eu cylch gorchwyl ar gyfer materion y gweithlu.

Dywedodd NL wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo gan ei Gyfarwyddiaeth a chan y Tîm Gweithredol. Roedd rheolwr cynllunio'r gweithlu wedi'i benodi yn y Sefydliad a byddai'n cefnogi ac yn arwain ar weithredu'r argymhellion.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod yr amserlenni yn gyraeddadwy. Dywedodd NL wrth y Pwyllgor fod gwaith eisoes ar y gweill, gydag adolygiadau o systemau a deialog gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill.

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynllunio Gweithlu.

Diolchodd NE i AB am yr adroddiadau.

| **ACGC 4/2024.01.29** | **Cyllid a Chaffael** |
|---|---|

Rhoddodd AW yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol y Sefydliad. Cyflwynwyd Adroddiad Cyllid Mis 9 i'r Bwrdd ar 25 Ionawr yn profi sicrwydd ar y sefyllfa refeniw a chyfalaf hyd at fis 9 a'r rhagolwg hyd at ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr holl dargedau statudol ar y trywydd iawn ac roedd gwariant asiantaethau o fewn y targed ar 1%.

Roedd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer dyraniadau 2024/25 yn parhau, byddai strategaethau gosod cyllideb yn cychwyn unwaith y byddai hysbysiad wedi dod i law.

| **ACGC 4.1/ 2024.01.29** | **Adroddiad Caffael** |
|---|---|

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Caffael ar gyfer 1 Medi i 31 Rhagfyr 2023.

Tynnodd AW a JM sylw at fylchau yn y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad a fyddai'n cael ei godi gyda chydweithwyr Caffael. Byddai'r adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth. Bydd cyfrifiad o ganrannau yn Nhabl 2.2 a'r ffigurau ar gyfer nodiadau ffeiliau yn Nhabl 3.1 yn cael eu hadolygu i sicrhau cywirdeb.

Wedi'i Gadarnhau

Gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiad diwygiedig gael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mawrth o'r Pwyllgor.
**Cam Gweithredu: AW/JM**

**Ychydig o sicrwydd** a gafodd y Pwyllgor ynghylch yr Adroddiad Caffael a nododd y byddai'r Adroddiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth.

| **ACGC 4.2/ 2024.01.29** | **Colledion a Thaliadau Arbennig** |
|---|---|

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiad yn dangos bod y ffigurau'n debyg i'r blynyddoedd blaenorol.

**Nododd** y Pwyllgor a chymerodd **sicrwydd** bod yr holl golledion a thaliadau arbennig wedi'u gwneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

| **ACGC 4.3/ 2024.01.29** | **Adolygiad o Ddileadau Posibl** |
|---|---|

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** yr Adolygiad o'r Adroddiad ar Ddileadau Posib ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 i 2024.

Dywedodd JM y derbyniwyd hysbysiad gan y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio ynghylch dileu stoc yn y dyfodol agos. Roedd y dileadau'n ymwneud ag etifeddiaeth profion COVID torfol ac roedd un ohonynt yn ymwneud â chau'r Labordy Goleudy. Roedd y swm dan sylw yn uwch na'r terfyn i'r Sefydliad ei gymeradwyo, a fyddai'n golygu bod angen i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo yn dilyn cymeradwyaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor ddileu dyledion drwg a hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt yn y papur hwn yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

| **ACGC 4.4/ 2024.01.29** | **Cynllun Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer 2024/25** |
|---|---|

**Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth** i Gynllun Cyfrifon Blynyddol 2023/24.

Cyflwynodd JM yr amserlen ddrafft i'r Pwyllgor ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi bod y dyddiadau wedi'u nodi'n rhai dros dro neu eu nodi i'w cadarnhau gan fod y Sefydliad yn aros am ddyddiadau wedi'u cadarnhau gan Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru. Y dyddiadau a ddengys oedd y dyddiadau cyfatebol i'r flwyddyn ariannol flaenorol ac fe'u cynhwyswyd fel canllaw yn unig.

Yn unol â'r terfynau amser statudol, **sicrhaodd** y Pwyllgor fod gan yr Ymddiriedolaeth gynllun priodol ar waith ar gyfer cynhyrchu'r Datganiadau Ariannol a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer 2023/24.

| **ACGC 5/ 2024.01.29** | **Seiberddiogelwch** |
|---|---|

Wedi'i Gadarnhau

Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Seiberddiogelwch. Cafodd cynnwys y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol ei hepgor o'r cofnodion a gadarnhawyd ac a gyhoeddwyd oherwydd natur gyfrinachol y pwnc.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Seiberddiogelwch yn y sefydliad.

| ACGC 6/ 2024.01.29 | Adroddiad Cynnydd Atal Twyll |
|---|---|

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Atal Twyll ar gyfer y cyfnod 1 Medi i 31 Rhagfyr 2023 a **chyflwynodd adroddiad** ar Atal Twyll.

Amlygodd GL y canlynol:

- Mynychodd y tîm Atal Twyll ddigwyddiadau Sefydlu ac fe wnaeth gymryd rhan yn Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll ym mis Tachwedd 2023.
- Ychwanegwyd e-ddysgu fel modiwl ESR, ond roedd y gyfradd gwblhau yn isel gan nad oedd yr hyfforddiant yn orfodol.
- Roedd tri Asesiad Risg Twyll wedi cychwyn a byddent yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor ar ôl eu cwblhau,
- Roedd y Dangosfwrdd Gordaliadau Cyflog wedi mynd yn fyw.

Nododd y Pwyllgor eu bod wedi trafod manteision posibl gorfodi hyfforddiant Atal Twyll mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor. Cyfeiriodd y Pwyllgor y drafodaeth ynghylch mandadu hyfforddiant Atal Twyll i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.
**Cam Gweithredu: PV/MM/NL**

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Atal Twyll o fewn y sefydliad.

| ACGC 7/2024.01.29 | Llywodraethu ac Atebolrwydd |
|---|---|
| ACGC 7.1/ 2024.01.29 | Cofnodion (19 Medi 2023), Log Gweithredu a Materion yn Codi |

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cofnodion a Log Gweithredu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023.

Wedi

Wele isod yr hyn a wnaeth y Pwyllgor:

- **Cymeradwywyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023fel cofnod cywir o'r cyfarfod.
- **Cymeradwywyd** cau pum cam a gwblhawyd ar y Log Gweithredu.
- **Cafwyd** diweddariad llafar gan SS ynghylch ACGC 2023/15 ynghylch contractau gwerth £25k sydd bellach yn cael eu rheoli gan y Gwasanaethau a Rennir. Roedd trafodaeth wedi'i chynnal gyda'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â chytundebau rhannu data. Gofynnodd SS i'r Pwyllgor ganiatáu estyniad i'r cyfarfod nesaf er mwyn caniatáu iddo gwblhau trafodaethau a dod â phapur i gyfarfod mis Mawrth o'r Pwyllgor. **Cytunodd** y Pwyllgor i ymestyn y dyddiad targed i 19 Mawrth 2024 er mwyn cyflwyno diweddariad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Cam Gweithredu: SS**

| ACGC 7.2/ | Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth |
|---|---|

| 2024.01.29 | |
|---|---|

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth.

Cyflwynodd SS yr adroddiad fformat newydd i'r Pwyllgor, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am:

- Llywodraethu Integredig
- Rheoli Risg,
- Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth Chwarterol,
- Diweddariad Rheoli Cofnodion

Gofynnodd SS i aelodau'r Pwyllgor am adborth ar yr adroddiad fformat newydd.

Dywedodd SS wrth y Pwyllgor ei fod wedi gweithio gydag IB a JL i gynhyrchu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth newydd, a oedd yn cyd-daro â chyhoeddi Polisi Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan newydd.

Mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI), tynnodd SS sylw at y cyfraddau ymateb ac oherwydd y cymhlethdod, nid oedd rhai o'r rhai y gofynnwyd amdanynt wedi'u darparu o fewn yr amserlenni targed. Roedd safle SharePoint newydd wedi'i ddatblygu i wella effeithlonrwydd yr ymatebion.

Roedd dau doriad data adroddadwy; cododd y ddau gyda chontractwr trydydd parti, ac adroddwyd ar y ddau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a oedd wedi hysbysu'r Sefydliad wedi hynny nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Dywedodd PV wrth y Pwyllgor fod IB wedi trafod lefel yr adrodd ar achosion o dorri rheolau data yng Nghyfarfod diweddar y Tîm Gweithredol Busnes a'i fod yn adolygu'r trothwyon i sicrhau mai dim ond yr achosion priodol o dorri rheolau oedd yn cael eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Rhoddodd SS ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd ar y System Rheoli Cofnodion; roedd pedair Cyfarwyddiaeth wedi trosglwyddo i'r system newydd gyda mudo pellach wedi'i gynllunio. Roedd gwelliannau wedi'u nodi a oedd yn cynnwys gwell mynediad at adnoddau a gwell rheolaeth ar fersiynau.

Gofynnodd y Pwyllgor i SS roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mecanweithiau rheoli Rheoli Cofnodion, gan gynnwys sut y dangoswyd gwerth a sut yr oedd y mecanwaith rheoli yn rhoi sicrwydd bod y system yn effeithiol.
**Cam Gweithredu: SS**

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth.

| ACGC 7.3/ 2024.01.29 | Polisïau i'w Cymeradwyo |
|---|---|

Derbyniodd y Pwyllgor bolisïau i'w cymeradwyo:

- Gweithdrefn Gwaredu (diweddariad i Weithdrefn bresennol)
- Gweithdrefn Rheolaeth Ariannol Storfeydd (wedi'i godi trwy'r Archwilwyr Allanol)
- Gweithdrefn Rheoli Cyllideb (i ddisodli Fframwaith presennol)

Wedi'i Gadarnhau

- Protocol Risg (newid amseriadau)
- Gweithdrefn Cerdyn Prynu (wedi'i godi trwy Archwilio Mewnol)

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y sefydliad wedi ystyried defnyddio Sefydliadau Trydydd Sector sy'n ailgylchu technoleg segur i'w gwneud ar gael am ddim i'r bobl hynny a fyddai'n ei defnyddio at ddibenion gofal iechyd. Roedd gan y Sefydliadau hyn brotocolau a phrosesau ar waith i wneud yr offer wedi'i ailgylchu yn ddiogel a dileu data.

Mewn perthynas â'r Protocol Risg, rhoddodd LB yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor y gofynnwyd am fân ddiwygiad i adlewyrchu argymhelliad yn Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru. Hefyd, dywedodd LB y gofynnwyd am newid pellach i ddiweddaru amlder adrodd i'r Pwyllgorau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor:

- Gweithdrefn Gwaredu
- Gweithdrefn Rheolaeth Ariannol Storfeydd
- Gweithdrefn Rheoli Cyllideb
- Gweithdrefn Cerdyn Prynu, a'r
- Protocol Risg.

| **ACGC 8/2024.01.29** | **Er Gwybodaeth** |
|---|---|
| **ACGC 8.1/2024.01.29** | **Cyllid, Caffael a Gwrth-dwyll** |

Dim

| **ACGC 8.2/2024.01.29** | **Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol** |
|---|---|

Dim

| **ACGC 8.3/2024.01.29** | **Rheoli Risg** |
|---|---|

**Nododd** y Pwyllgor y Gofrestr Risg lawn.

| **ACGC 8.4/2024.01.29** | **Llywodraethu ac Atebolrwydd** |
|---|---|

Dim

| **ACGC 8.5/2024.01.29** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
|---|---|

**Nododd** y Pwyllgor Cynllun Gwaith y Pwyllgor.

| **ACGC 9/2024.01.29** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
|---|---|

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:**

19 Mawrth 2024

**Nododd** y Pwyllgor y byddai holl bapurau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi, ac **eithrio** :

- Adroddiad Caffael
- Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig
- Dileu Dyled
- Adroddiadau yn ymwneud â Seiberddiogelwch.
- Adroddiadau yn ymwneud ag Atal Twyll.

**Unrhyw Fater Arall**

Wedi'i Gadarnhau

| |
|---|
| Nid oedd unrhyw faterion arall.<br><br>Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth am y cyfarfod at LB.<br><br>Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben. |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12:43 |

Wedi'i Gadarnhau